

DANGOSFWRDD TIR ÂR

Hydref 2018 – Medi 2019

% o'r holl weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector tir âr:

MAE **683** O FUSNESAU WEDI COFRESTRU
gyda Cyswllt Ffermio yn dod o'r sector tir âr:
20% GWETHGARWCH ÂR

Rhwydwaith Arddangos

Hau gwellt o dan gnwd india-corn ar Safle Ffocws Pant Farm

Mae dŵr ffo ar bridd yn broblem sylweddol gydag india-corn oherwydd y bonion noeth sy'n dal yno ar ôl cynaeafu. Ymchwiliodd Pant Farm i weld a fyddai hau rhesi o wellt rhwng y rhesi india-corn yn helpu i leihau'r broblem a chreu porfa bosibl ddiwedd yr hydref.



Heuwyd cymysgedd o IRG a PRG ar 30 Mehefin 2018 rhwng y rhesi india-corn oedd yn 50cm o daldra.

Gwaetha'r modd, cafodd amodau sych difrifol haf 2018 effaith ar y gwellt o ran y broses egino ac ymsefydlu, ac nid oedd digon o wellt i'w fonitro a'i bori. Byddai gwaith pellach ar y prosiect hwn yn ddefnyddiol er mwyn asesu ei botensial mewn tymor tyfu mwy ffafriol.

Defnyddio technoleg i leihau costau a mewnbynnau

Cynhaliwyd prosiect yn canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg arloesol a'i ddefnyddiau mewn ffermio manwl gywir i sbarduno effeithlonrwydd a chynhyrchiant mewn system glaswellt a thir âr ar Fferm Plas, Ynys Môn.

Fel rhan o'r prosiect mapiwyd 40 hectar o dir âr cymysg a phorfa gyda sganiwr oedd yn mesur dargludedd trydan y tir ar ddau ddyfnder, 30cm a 90cm, i greu map yn dangos sut oedd y pridd yn amrywio o fewn cae. Yna rhannwyd y cae yn barthau rheoli yn ôl yr amrywiadau o ran pridd, a defnyddiwyd mewnbynnau amrywiol ym mhob parth, i sicrhau'r twf gorau ar gyfer pob cae.

Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys defnyddio prawf N-min ar gaeau lle heuwyd cnydau grawn ac india-corn. Roedd hyn yn golygu bod Arwyn yn gallu cyfrifo'n gywir faint o nitrogen oedd ei angen drwy gydol y tymor tyfu ar gyfer caeau unigol.

Canlyniadau:

Mae'r prosiect yn parhau ond mae canlyniadau maetholion ac ansawdd wedi caniatáu i Arwyn ddefnyddio maetholion ar gyfraddau newidiol gan ddefnyddio meddalwedd GPS i sicrhau'r twf a'r effeithlonrwydd gorau posibl.

Roedd natur gyfnewidiol y pridd o fewn cae'n eithaf syfrdanol, er bod gwrtaith wedi'i ddefnyddio'n gyson yn y gorffennol.



Trwy brynu llai o nitrogen anorganig arbedwyd £72.13/Ha oedd yn cynnwys cost y prawf N-min.



Mae defnyddio'r dechnoleg newydd hon yn golygu bod modd tyfu cnydau mor gost-effeithlon â phosibl a lleihau costau porthiant ymhellach.




EIP WALES

Rheoli clwy tatws gyda sylweddau a dynnir o blanhigion



Roedd y prosiect hwn yn asesu effeithlonrwydd bio-bladdleiddiad a wnaed o eiddew o'r enw Hederin. Hefyd defnyddiwyd bio-ysgogydd o'r enw OptD i asesu a yw'n gallu helpu i reoli clwy tatws. Treialwyd hyn mewn caeau yn ystod 2017 a 2018 a daeth y prosiect i ben yn ystod 2019.

Dangosodd canlyniadau'r prosiect nad oedd y sylwedd a dynnwyd o'r eiddew, ar ei ben ei hun, yn rheoli gystal â ffwngleiddiaid arferol mewn systemau confensiynol a chopr mewn systemau organig. Fodd bynnag, o'i gyfuno ag OptD roedd rheolaeth llawer gwell. Gallai hyn olygu bod lle iddo mewn rhaglenni rheoli clefydau integredig.



Cadwyn gyflenwi grawn hynafol organig



Mae galw cynyddol am bobyddion medrus sydd â diddordeb mewn gwahanol rywogaethau o rawn hynafol i wneud bara. Yn ôl y sôn mae eu blas yn fwy cyfoethog a hefyd mae'n bosibl eu tyfu ar bridd llai ffrwythlon. Mae'r prosiect hwn yn ymchwilio i agronomeg a

photensial economaidd y gwahanol fathau hyn o rawn yn cynnwys p'un ai y byddai hau llysiâu oddi tanynt yn gallu helpu gyda materion fel ffrwythlondeb ac ymsefydlogi.

Cynaeafwyd y cnwd cyntaf ym Medi 2019 ac mae'r casgliadau'n cael eu casglu cyn eu cyhoeddi.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth


Paratowyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- PLASTIGAU BIODIDDRADDIADWY AR GYFER AMAETHYDDIAETH
- RHYFELY CHWYN: DYRCHAFIADY ROBOTIAID
- LLEIHAI EICH COLLEDION: MANTEISIO I'R EITHAF AR FUDDION CYNLLUN RHEOLI MAETHOLION

Paratowyd y taflenni ffeithiau canlynol gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- GWEDDILLION TREULIAD ANAEROBIG O LASWELLT
- RHEOLI RHEDYN
- RHEOLI DAIL TAFOL
- PRYFED GENWAIR AC IECHYDY PRIDD

Grwpiau Trafod



Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 116 o Ddigwyddiadau

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:



*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn rhai traws-sector sy'n tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector; yn cynnwys y sector âr.

Cymorthfeydd

Cynhaliwyd 129 o Gymorthfeydd

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:




Roedd busnes âr yn bresennol yn un o'n cymorthfeydd Marchnata ac Arallgyfeirio, gan ystyried arallgyfeirio a chreu Safle Bragu. Roedd y busnes yn awyddus i gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn dechrau ei brosiect arallgyfeirio.

Mentora

MAE GAN 14 MENTOR DIR ÂR

Dyma eu harbenigedd o ran cynydau:



Agrigôp



Dyma enghreifftiau o themâu'r grwpiau:



Mentor



Hyfforddiant

Bu pedwar cyfnod ymgeisio rhwng Hydref 2019 a Medi 2019 a chynhaliwyd **808** o sesiynau hyfforddi yn ystod y cyfnod hwn.

O blith y nifer hwn roedd **64** o sesiynau gan fusnesau oedd yn cynnwys tir âr fel prif neu is-sector.



E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r setcor tir âr:



Am fwy o wybodaeth am e-ddysgu, ewch i'r [wefan](#).

Rhai o'r uchafbwyntiau ar ein Gwefan a'nsafleoedd Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiweddar...

Facebook 19/04/2019

Mae technegau mapio pridd wedi cael sylw yn un o'n pedwar safle ffofws – Dudwell, Camrose, Hwlfordd. Gwylwch y fideo i weld sut mae hyn yn ceisio gwella perfformiad ariannol ac amgylcheddol y busnes.

Cliciwch [yma](#) neu ar y sgrin teledu i wyllo'r fideo.

Pobl a Gyrhaeddwyd: 2,648
Nifer wedi gwyllo'r fideo: 848
Hoffi, sylwadau a rhannu: 10